Azariah Shadrach, 1774–1844
Ysgolfeistr, gweinidog (A), ac awdur

Os gofyn rhywun beth yw Duw,
atebwn ni mai cariad yw:
fe fflamiodd cariad Tri yn Un
yn rhyfedd at annheilwng ddyn.

Azariah Shadrach

Gweithiai Azariah Shadrach fel gweinidog yn y cyfnod cyn adeiladu'r mwyafrif o gapeli Cymru, pryd y cynhelid cyfarfodydd fynychaf yn yr awyr agored, mewn tai neu mewn adeiladau rhent. Treuliodd lawer o'i amser yn cyhoeddi efengyl cariad Duw yn y priffyrdd a'r caeau, gan wynebu bygythiadau ac erledigaeth.

Ganwyd ef ar 24 Mehefin 1774 yn Garndeifo-fach, Llanfair Nant-y-Gof, Penfro, nid nepell o Abergwaun, yn bumed o chwe mab Henry ac Ann Shadrach. Pan oedd yn saith oed symudodd y teulu i Burton yn ardal Saesneg Penfro, yna fe aeth i fyw at chwaer ei dad ar fferm Fagwyreinion-fawr yn Nhrewyddel. Tra oedd yno fe gafodd dröedigaeth o dan weinidogaeth y Parch. John Phillips ac fe'i derbyniwyd yn aelod o eglwys Trewyddel. Yn fuan teimlodd alwad i bregethu ond ychydig iawn o fanteision addysgol oedd ar gael.

Cafodd beth ysgol gyda John Young, clochydd Nanhyfer, ac aeth ati i'w addysgu ei hun. Trawodd fargen â'r Parch. John Richards, Trefgarn, i weithio am ei gadw ar ei fferm am flwyddyn, ar yr amod y câi ddarllen ei lyfrau. Anogodd John Richards ef i bregethu a gwnaeth hynny am y tro cyntaf yng Nghaergowyl, Rhosycaerau. Digwyddiad hynod yn ei hanes oedd iddo fynd i Abergwaun ym 1797 i wrthsefyll y milwyr Ffrengig a laniodd yno.

Yn dilyn arfer y cyfnod aeth ar deithiau pregethu gyda'i gyfaill Daniel Evans. Aethant i'r de ym 1797 ac i'r gogledd ym 1798, lle yr ymsefydlodd. Bu yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant am gyfnod ac yna'n athro ysgol ym Mhennal, Machynlleth. Yno cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, sef *Allwedd Myfyrdod neu arweinydd i'r*

meddwl segur. Wedyn aeth i gadw ysgol yn Nhrefriw, Dyffryn Conwy, gan bregethu ym Mhorthllwyd, Llanrwst a Chapel Garmon. Oddeutu 1802 fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar yr eglwysi hyn am gyflog o £5.00 y flwyddyn. Bu'n cerdded i bobman hyd nes i Mr Jones, Caer, roi ceffyl a chyfrwy yn rhodd iddo. Derbyniodd alwad i fugeilio eglwysi Annibynnol bychain Tal-y-bont a Llanbadarn Fawr, Ceredigion, ym 1806 am £2.00 y chwarter. Erbyn hyn yr oedd yn briod ac yn dad i bedwar o blant. Dechreuodd adeiladu tŷ ond nid oedd digon o arian ganddo i'w orffen hyd nes i'r cymwynaswr hael hwnnw, Mr Jones, Caer, anfon £10.00 yn rhodd iddo. Dechreuodd bregethu yn nhref Aberystwyth ym 1816 a defnyddiwyd capel rhent David Jenkins.

Wedi meithrin cynulleidfa, rhentiwyd ysgubor helaeth ar Heol y Frenhines a chorffolwyd eglwys Annibynnol Seion yno ym 1819. Gadawodd ei ofalaeth yn Nhal-y-bont a Llanbadarn er mwyn bugeilio'r eglwys newydd ac aeth ati'n egnïol i gasglu arian er mwyn codi capel, gan fynd ar deithiau casglu i Lundain a Swydd Efrog. Ym 1821 agorwyd capel Seion, Penmaesglas, yn gartref i'r eglwys. Er na chafodd fanteision addysg cyhoeddodd cymaint â 23 o lyfrau, rhai ohonynt â theitlau hirfaith, ac yn eu plith, *Drws i'r meddwl segur i fynd i mewn i weithio i Winllan y Per Lysiau* (1804), *Perlau Calfaria* (1808) a *Gwallt Samson yn cael ei dorri pan oedd yn cysgu ar liniau Dalilah* (1831). Ymddeolodd ym 1835 a bu farw 18 Ionawr 1844. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth.